# Cyhoeddi papurau cyfarfod Bwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar gyfer mis Mehefin 2025

Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal yn Crowne Plaza yn Central Square, Holliday Street, Birmingham, a'i gadeirio gan gadeirydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), yr Athro Susan Jebb.

Bydd y cyfarfod yn dechrau am 9am ddydd Mercher, 18 Mehefin, ac mae croeso i'r cyhoedd ddod i'r cyfarfod agored hwn. Ewch ati i gofrestru yma os hoffech chi ddod i'r cyfarfod, boed hynny'n bersonol neu ar-lein.

Mae agenda'r cyfarfod hwn yn cynnwys:

- Rheoleiddio ar Lefel Genedlaethol
- Diwygio'r drefn o ran Awdurdodiadau'r Farchnad
- Diweddariad ar werthuso'r drefn o ran rhoi gostyngiadau wrth godi tâl ar gig
- Adroddiad Blynyddol y Prif Gynghorydd Gwyddonol

Mae'r agenda lawn a'r papurau sydd wedi'u cyhoeddi ar gael ar dudalennau'r Bwrdd ar ein gwefan (Saesneg yn unig).

## Sut i gofrestru ar gyfer cyfarfod agored y Bwrdd

Mae croeso i aelodau o'r cyhoedd ddod i'r cyfarfod hwn. Ewch ati i gofrestru os hoffech ddod i'r cyfarfod.

Os oes angen help arnoch i gofrestru, neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni:

- Ffôn: 01772 767731
- E-bost:?fsaboardmeetings@onetwo.agency

Yn ogystal, gallwch gofrestru i wylio'r cyfarfod yn fyw ar-lein.

## Cyflwyno cwestiwn i Fwrdd yr ASB

Mae Bwrdd yr ASB yn croesawu cwestiynau ar bapurau a gyhoeddwyd i'w trafod yn ei gyfarfodydd.

Gallwch gyflwyno'ch cwestiynau hyd at 5pm ar y dydd Llun cyn cyfarfod y Bwrdd gan ddefnyddio'r ffurflen hon.??Sylwch fod cyfyngiad o 350 o eiriau ar y ffurflen i sicrhau bod eich cwestiwn yn gryno, er mwyn i ni allu mynd i'r afael ag ef yn llawn.

Bydd cwestiynau a ddaw i law yn y fformat hwn yn cael eu cyhoeddi y diwrnod cyn cyfarfod y Bwrdd.

Byddwn yn anelu at anfon ateb atoch trwy e-bost o fewn 20 diwrnod gwaith i gyfarfod y Bwrdd, a bydd ymatebion hefyd yn cael eu cyhoeddi.

Ar gyfer cwestiynau nad ydynt yn ymwneud â’r un o’r papurau sydd ar yr agenda, neu ar gyfer gohebiaeth sy’n hirach nag y mae’r ffurflen ar-lein yn ei ganiatáu, anfonwch e-bost i correspondence@food.gov.uk a byddwn yn anelu at ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith. Sylwch na fydd y cyflwyniadau hyn na’u hatebion yn cael eu cyhoeddi fel arfer.